



Tachwedd 2017

Ardaloedd Draenio Mewnol - canfod ateb cynaliadwy i ariannu yn y dyfodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi bod yn gweithio gyda Grwpiau Ymgynghorol yr Ardaloedd Draenio Mewnol i ganfod ateb tymor hir i ariannu'r gwaith hanfodol o reoli'r Ardaloedd Draenio Mewnol (ADM).

Bydd yr adolygiad ariannu hwn yn creu sylfaen mwy diogel i reoli ADM fel elfen allweddol o dir amaethyddol.

Daw'r arian i weithredu ADM o dair ffynhonnell – tîrfeddianwyr a meddianwyr ADM, Awdurdodau Lleol a CNC.

Gyda'i gilydd, mae'r taliadau hyn yn gyfrifol am ariannu cost gwaith cynnal a chadw a chlirio CNC ar brif afonydd a chyrsgiau dŵr eraill – gwaith sydd â manteision uniongyrchol i lefelau dŵr a rheoli perygl llifogydd mewn ac o amgylch ADM.

Mae un agwedd o'r adolygiad ariannu yn cynnwys creu fformiwla gyson i gyfrifo cyfraniad yr Awdurdodau Lleol a thîrfeddianwyr neu feddianwyr amaethyddol i'r gost o reoli'r prif afonydd o fewn ADM – a elwir yn 'praeseptau'.

Gan nad yw'r lefel braesept wedi cynyddu ers 20 mlynedd, mae CNC yn cydnabod y bydd y fformiwla ariannu newydd yn cael effaith ar rai tîrfeddianwyr a meddianwyr. Tra bydd rhai yn gweld fawr ddim newid, bydd eraill yn gweld cynnydd sylweddol.

I baratoi ar gyfer hyn, mae CNC yn bwriadu cyflwyno taliadau cynyddol mewn camau graddol dros y tair blynedd nesaf.

Yn gyffredinol bydd yr adolygiad yn cyflwyno system well a thecach i bawb, gan sicrhau bod y cyllid cywir ar gael yn y lle cywir ar gyfer y gwaith cywir.

Mae swm y gwaith sydd ei angen i reoli ADM yn cael ei asesu bob blwyddyn i gyfrifo cyfraniadau blynyddol yr Awdurdodau Lleol, tîrfeddianwyr a meddianwyr. Cyhoeddir y ffigurau bob blwyddyn ym mis Chwefror ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae cyfres o gyfarfodydd Grŵp Ymgynghorol ADM wedi cael eu trefnu i roi cyfle i dirfeddianwyr a meddianwyr ADM drafod y system ariannu newydd a sut bydd yn cael ei gweithredu. Y cyfarfodydd:

- Grŵp Ymgynghorol ADM Malltraeth – Dydd Iau 9 Tachwedd 2017, 2.30pm – Swyddfa CNC, Maes y Ffynnon, Bangor.
- Grŵp Ymgynghorol ADM Borth– Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2017, 7pm – Llanfach, Tre Taliesin
- Grŵp Ymgynghorol De Meirionnydd (ADM Dysynni, Mawddach & Wnion, Tywyn) – Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2017, 3.00pm – Swyddfa CNC Dolgellau
- Grŵp Ymgynghorol ADM Afon Conwy ac Afon Ganol – Dydd Iau 23 Tachwedd 2017, 7pm – Glasdir, Llanrwst
- Grŵp Ymgynghorol Dwyfor & Meirionnydd (ADM Llanfrothen, Glaslyn Pencyflog, Harlech Maentwrog, Ardudwy) – Dydd Iau 30 Tachwedd 2017, 7pm – Plas Tan y Bwlch Maentwrog.